PWYLLGOR PENSIYNAU

DYDD LLUN, 12 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Weaver(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Howells, Sattar a/ac Graham Thomas |

## 45 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEBAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb. Nid oedd yn ofynnol i'r Cynghorydd Dilwar Ali fod yn bresennol gan fod ganddo ymrwymiad i gyfarfod a oedd yn gwrthdaro.

## 46 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim.

## 47 : COFNODION

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2017 yn gofnod cywir a chawsant eu llofnodi gan y Cadeirydd.

## 48 : GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y wasg a’r cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod y gwaith o ystyried yr eitem nesaf gan y byddai ystyried yr eitem hon yn gyhoeddus yn datgelu gwybodaeth sy’n dod o dan baragraffau 14 a 21 Rhannau 4 a 5, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 49 : COFNODION Y PANEL YMGYNGHOROL BUDDSODDI

PENDERFYNWYD: I nodi cofnodion cyfarfodydd y Panel Ymgynghori ar Fuddsoddi a gynhaliwyd ar 19 Medi a 12 Rhagfyr 2017.

## 50 : PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed o ran sefydlu trefniadau buddsoddi cyfun ar gyfer wyth cronfa'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Nododd yr Aelodau, yn dilyn ymarfer caffael a oruchwyliwyd gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu, fod yr wyth awdurdod unigol wedi cymeradwyo penodi Link Fund Solutions fel gweithredydd y Gronfa Fuddsoddi. Llofnodwyd y contract gyda Link ar 22 Rhagfyr 2017. Mae Link wedi partneru â Russell Investments er mwyn darparu gwasanaethau ymgynghorol buddsoddi.

Bydd Link yn sefydlu Cynllun Contractiol Awdurdodedig (CCA) a reoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol i gadw asedau buddsoddi ar ran wyth awdurdod y gronfa bensiwn. Bydd y CCA yn cynnwys nifer o is-gronfeydd er mwyn galluogi'r awdurdodau i weithredu eu strategaethau buddsoddi unigol. Caiff yr is-gronfeydd eu

sefydlu fesul cam ar ôl i'r cais cychwynnol i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol gael ei gymeradwyo.

Bydd asedau a ddelir ym mhob is-gronfa yn cael eu rheoli gan un neu fwy o reolwyr buddsoddi a benodir gan Link mewn ymgynghoriad â Russell Investments a'r wyth cronfa bensiwn. Mae Link a Russell wedi cwrdd â swyddogion pob cronfa yn unigol i gael dealltwriaeth o strategaethau buddsoddi'r cronfeydd a'r portffolios asedau cyfredol. Maent hefyd wedi rhoi cyflwyniad i gyfarfod anffurfiol o'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu.

Bydd Link a Russell yn mynychu cyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol ar 23 Mawrth 2018 i gyflwyno'u hunain ac i egluro eu rôl o fewn Partneriaeth Pensiynau Cymru.

PENDERFYNWYD: I nodi'r datblygiadau diweddar o ran sefydlu Cronfa Buddsoddi Partneriaeth Pensiynau Cymru.

51 : BUDDSODDIADAU TANWYDD FFOSIL

Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd tuag at adolygu buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn mewn tanwyddau ffosil.

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod grwpiau Amgylcheddol (e.e. Cyfeillion y Ddaear wedi ymgyrchu ers sawl blwyddyn yn erbyn dibyniaeth gwledydd datblygedig a datblygol ar ffynonellau tanwydd ffosil (glo, olew a nwy) am ynni, ar sail yr effaith ar yr amgylchedd o echdynnu a defnyddio tanwyddau ffosil.

Mae ymgyrchoedd diweddar wedi canolbwyntio ar hyfywedd ariannol hirdymor cynhyrchwyr mawr a nwy, gan godi materion megis cytundebau gan lywodraethau i geisio lleihau defnydd a chostau cynyddol cloddio. Mae ymgyrchwyr wedi dadlau y dylai cyllid y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol roi'r gorau i fuddsoddi yn y cwmnïau hyn am resymau ariannol h.y. efallai na fydd y cwmnïau'n gallu darparu'r twf cyfalaf hirdymor a'r incwm difidend sydd ei angen drwy strategaethau buddsoddi'r gronfa.

Ar ôl ethol Cyngor newydd ym mis Mai 2017, cyhoeddodd Cyngor Caerdydd y ddogfen "Uchelgais Prifddinas" a oedd yn nodi ei gynllun pum mlynedd. Roedd y cynllun yn cynnwys ymrwymiad i "Weithio gyda'r Pwyllgor Pensiynau er mwyn i'r Cyngor ystyried dadfuddsoddi o'r cwmnïau tanwydd ffosil". Mae Cynllun Corfforaethol manylach ar gyfer 2018-21 yn cael ei baratoi a bydd yn nodi cynigion i fynd i'r afael â'r ymrwymiadau o ran yr Uchelgais Prifddinas.

Mewn ymateb i'r ymrwymiad a roddwyd yn yr Uchelgais Prifddinas, mae'r Panel wedi derbyn dau adroddiad yn nodi'r materion i'w hystyried cyn y gellid gwneud unrhyw ddiwygiadau i strategaeth y Gronfa.

Roedd yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Panel ym mis Rhagfyr yn ymdrin â'r materion canlynol:

- Cyfrifoldebau ymddiriedol y Cyngor a rolau'r Pwyllgor, y Panel a'r Bwrdd Pensiynau Lleol wrth gyflawni'r cyfrifoldebau hynny
- Ymrwymiadau a wnaed gan gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eraill i ddiwygio eu strategaethau buddsoddi er mwyn ystyried materion amgylcheddol
- Amlygiad y Gronfa ar hyn o bryd i fuddsoddiadau sy'n gysylltiedig â thanwydd ffosil

- Opsiynau ar gyfer strategaethau buddsoddi gan gynnwys buddsoddi carbon isel yn ogystal â dadfuddsoddi llawn

Nododd y Panel y gwaith a wnaed hyd yn hyn ac argymhellodd y dylai swyddogion ystyried materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ehangach y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ymgynghori â chronfeydd eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru ac ystyried datblygu Polisi Buddsoddi o ran Newid yn yr Hinsawdd.

Bydd materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn cael eu cynnwys mewn pynciau i'w trafod yng nghyd-gyfarfod y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol ar 23 Mawrth 2018.

Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio gyda'i gweithredwr CCA sef Link Fund Solutions a'r ymgynghorwyr, Russell Investments, i ystyried sut y gellir mynd i'r afael â materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu er mwyn cwrdd â gofynion presennol a dyfodol yr wyth cronfa bensiwn gyfansoddol.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ym mis Rhagfyr 2017 y bydd yn ymgynghori ar newidiadau i Reoliadau Buddsoddi'r Cynllun Pensiwn er mwyn caniatáu i Gronfeydd Pensiwn ystyried ffactorau cymdeithasol wrth wneud penderfyniadau buddsoddi. Bydd y Panel a'r Pwyllgor yn cael gwybod am y newidiadau arfaethedig fel y gellir ymateb i'r ymgynghoriad.

PENDERFYNWYD: Nodi'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn ar adolygu buddsoddiad y Gronfa mewn cwmnïau sy'n gysylltiedig â thanwydd ffosil.

52 : DYDDIADAU'R CYFARFODYDD NESAF.

Cafodd y Pwyllgor wybod y byddai cyfarfod anffurfiol ar y cyd rhwng y Pwyllgor Pensiynau a'r Bwrdd Pensiynau Lleol ar ddydd Gwener 23ain Mawrth 2018 am 2pm yn Ystafell Bwyllgora 4, Neuadd y Sir, Caerdydd.

Trefnwyd cyfarfod ffurfiol nesaf y Pwyllgor Pensiynau ar gyfer dydd Mercher 27 Mehefin 2018 am 5.00pm.